

Malu gwydr gwin â sain, creu enfys droellog, defnyddio golau i wella clwyfau ac archwilio optoelectroneg ym maes meddygaeth – mae angen gwirfoddolwyr arnom!

A yw'r pethau hyn yn swnio'n ddiddorol? Oes gennych chi ddiddordeb mewn rhannu gwybodaeth am wyddoniaeth â chynulleidfa ifanc? Mae Labordy mewn Lori yn chwilio am wirfoddolwyr sydd â chefnidir ym maes gwyddoniaeth neu beirianeg ar gyfer digwyddiadau ledled Cymru yn ystod y tymor ysgol.

Beth yw Labordy mewn Lori?

Labordy symudol rhyngweithiol yw Labordy mewn Lori, sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc (11–14 oed) archwilio gwyddoniaeth drwy arbrofion penagored. Bydd gwirfoddolwyr yn arwain y myfyrwyr drwy'r arbrofion (sy'n ymwneud ag optoelectroneg a meddygaeth, sain a chyseiniant, gwasgaru golau a lliwiau) a byddant yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan a chael profiadau ymarferol.

Beth y byddai'n rhaid i mi ei wneud?

Byddech yn goruchwyllo arbrawf am y dydd. Byddem yn anfon yr holl wybodaeth gefndir atoch ymlaen llaw, ac ar fore'r digwyddiad byddech yn cael hyfforddiant llawn yn y labordy.

Rydym yn gofyn i wirfoddolwyr gynnig o leiaf un diwrnod ysgol llawn, ond mae croeso i chi ymuno â ni am gynifer o ddiwrnodau ag yr ydych yn dymuno. Yn gyfnewid am hynny byddwch yn cael profiad bythgofiadwy a fydd yn rhoi llawer o foddhad i chi, byddwch yn cael nwyddau rhad ac am ddim gan y Sefydliad Ffiseg a byddwch yn cael bod yn aelod cyswllt o'r Sefydliad Ffiseg am flwyddyn www.iop.org

Hoffech chi gael rhagor o wybodaeth?

I gael gwybod mwy am beth y mae gwirfoddoli ar Labordy mewn Lori yn ei olygu ac i ble y byddwn yn teithio, ewch i'n gwefan www.labinalorry.org.uk lle gallwch gofrestru'n wirfoddolwr hefyd, neu cysylltwch â mi gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Mae gwirfoddolwyr yn allweddol i lwyddiant Labordy mewn Lori, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn dod yn rhan o'r tîm.

Diolch yn fawr ac edrychaf ymlaen at eich gweld yn fuan.

James.



Taith 2014/15 – Amserlen tymor yr hydref			Nifer y gwirfoddolwyr ar hyn o bryd
Hydref 2014			
Powys	7 & 8	Christ College , Llanfaes, Brecon, LD3 8AF.	3 / 3
Powys	9 & 10	Llanidloes High School , Llangurig Road, Llanidloes, Powys, SY18 6EX.	1 / 3
Wrexham	14, 15 & 16	Ysgol Y Grango , Vinegar Hill, Rhosllanerchrugog, Wrexham, LL14 1EL.	1 / 0 / 2
Neath	21, 22 & 23	Dwr-Y-Felin Comprehensive , Dwr-Y-Felin Road, Neath, SA10 7RE.	Llawnd ☺
Tachwedd 2014			
Powys	3, 4 & 5	Crickhowell High School , New Road, Crickhowell, Powys, NP8 1AW.	2 / 4 / 3
Sir y Fflint	12, 13 & 14	Argoed High School , Bryn Road, Mold, CH7 6RY.	1 / 0 / 2
Swansea/De Powys	18 & 19	Ysgol Gyfun Ystalyfera , Heol Glanyrafon, Ystalyfera, SA9 2JJ.	0 / 0
	20 & 21	Ysgol Maesydderwen , Tudor Street, Ystradgynlais, SA9 1AP.	0 / 0
Sir Fynwy	25 & 26	Chepstow School , Welsh Street, Chepstow, NP16 5LR.	1 / 1
Rhagfyr 2014			
Powys	2 - 5	Welshpool High School , Salop Road, Welshpool Powys, SY21 7RE.	0 / 0 / 0 / 0
Sir Gaerfyrddin	9, 10 & 11	Ysgol Bro Myrddin , Croesyceiliog, Carmarthen, SA32 8DN.	0 / 0 / 0

Bydd rhagor o ddigwyddiadau ledled y wlad yn cael eu hychwanegu at y rhestr. Bydd y daith yn cael ei chynnal yn ystod tymhorau ysgol a bydd yn para tan fis Mawrth 2015.

Mae angen o leiaf 3 o wirfoddolwyr bob dydd ar Labordy mewn Lori i gynnal yr arbrofion, a gallwn gymryd hyd at 6 o bobl.

Cofrestrwch yn wirfoddolwr ar www.labinalorry.org.uk